


**Cyfle:**

# Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol *Romeo a Juliet*

**Lleoliad:** Ymarferion yng Nghaerdydd, wedyn taith ledled Cymru a pherfformiadau yn Llundain

**Cytundeb:** 26 Awst – 09 Tachwedd 2025

**Cyflog:** £552.55 yr wythnos

Ry'n ni'n chwilio am Reolwr Llwyfan Cynorthwyol (ASM) i ymuno â'n tîm cynhyrchu gwych ar gyfer ein sioe hydref, ***Romeo a Juliet***. Mae hwn yn gyfle cyffrous i fod yn rhan o dîm croesawgar fydd yn dod â chynhyrchiad newydd uchelgeisiol i'r llwyfan.

Bydd 6 o wythnosau ymarfer yn Theatr y Sherman, Caerdydd, gyda'r sioe yn agor ar 29 Medi tan 3 Hydref. Bydd 3 wythnos o daith ledled Cymru yn dilyn, cyn wythnos o ail-ymarfer yng Nghaerdydd ac yna wythnos o berfformiadau yn Shakespeare's Globe, Llundain.

Bydd y cwmni yn darparu llety, trafnidiaeth a chostau dyddiol.

## Am y Rôl

Fel ASM, byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r Tîm Rheoli Llwyfan drwy gydol y broses gynhyrchu – o gynllunio cyn-gynhyrchu i fywyd ar daith. Ry'n ni'n chwilio am unigolyn sy'n rhagweithiol, yn drefnus, yn ymarferol, ac yn rhagori mewn gwaith tîm ac amgylchedd prysur.

## Prif Gyfrifoldebau

**Rheoli Propiau:** Darganfod, cynnal, trwsio a chreu propiau yn ystod ymarferion a thrwy gydol y daith. Cydweithio gyda'r cyfarwyddwr a'r cast ar bropiau penodol i gymeriadau a sicrhau bod eitemau'n barod i'r sioe.

**Cefnogi Ymarferion a Sioeau:** Cynorthwyo'r Rheolwr Llwyfan a'r tîm ehangach yn ystod ymarferion, ymarferion technegol, rhediadau gwisg a pherfformiadau ar daith.

**Tracio Cyllidebau:** Cynorthwyo'r Rheolwr Llwyfan i reoli'r gyllideb rheoli llwyfan. Cadw cofnod cywir o bob gwariant a chadw derbynebau, yn unol a threfniannau ariannol y cwmni.

**Cwblhau Set a Phropiau:** Cydweithio gyda'r Dylunydd Set a gwneud unrhyw waith peintio, torri lawr a gwaith cynnal ar y set a'r propiau i gyd-fynd â gweledigaeth artistig y cynhyrchiad

**Cefnogaeth Gyffredinol:** Derbyn unrhyw gyfrifoldebau sydd yn gysylltiedig a rôl Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol yn ôl y gofyn.

## Ry'n ni'n chwilio am rywun sydd:

- Â phrofiad neu ddiddordeb cryf mewn rheoli llwyfan.
- Â sgiliau ymarferol mewn creu propiau, trwsio, a gwisgo setiau.
- Â sgiliau cyfathrebu clir yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda sgiliau trefnu a rheoli amser da.
- Yn gyfforddus yn gweithio mewn tîm creadigol ac yn ymateb yn hyblyg i anghenion sy'n newid.
- Â thrwydded yrru lawn y DU (yn ddymunol ond nid yn hanfodol).

## I ymgeisio

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol sy'n amlinellu eich profiad a'ch diddordeb yn y rôl at swyddi@theatr.com erbyn **17 Gorffennaf**.

Bydd cyfweliadau anffurfiol gyda Gareth Wyn Roberts (Pennaeth Cynhyrchu) a Caryl McQuilling-Edwards (Rheolwr Cynhyrchu Cwmni) yn digwydd ar **24 Gorffennaf.**

Ry'n ni'n croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n gymwys, os ydych chi wedi gweithio gyda ni o'r blaen neu beidio. Mae hefyd croeso i chi gysylltu â ni am sgwrs anffurfiol cyn cyflwyno cais – gallwch gysylltu â Caryl ar **07903 842562.** Ymunwch â ni i ddod â'r sioe gyffrous hon yn fyw ar lwyfannau ledled Cymru a thu hwnt!





## Am Theatr Cymru

Mae Theatr Cymru (Theatr Genedlaethol Cymru gynt) yn creu profiadau theatr beiddgar i ddifyrru ac ysbrydoli pobl Cymru.

Sefydlwyd y cwmni ym mis Mawrth 2003, gyda grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru. O'r cychwyn cyntaf, roedd un peth yn glir – y byddai'n gwmni teithiol, yn mynd â gwaith theatr Cymraeg i galon cymunedau ledled y wlad. Byddai'r cwmni'n dathlu ein hunaniaethau a'n hiaith yn ei holl amrywiaeth.

Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae'r cwmni wedi cofleidio clasuron y theatr Gymraeg yn ogystal â gwaith newydd ac arbrofol, gan gyflwyno mewn theatrau traddodiadol ac mewn lleoliadau annisgwyl.

Mae'r cwmni hefyd yn hwyluso prosiectau creadigol, lles a chyfranogol ledled y wlad. Mae Theatr Cymru bellach yn theatr deithiol glodwiw, sy'n gosod Cymru a'i phobl ar y map, ac yn croesawu pawb. Mae ein rhaglen flynyddol fel arfer yn cynnwys tua 4 cynhyrchiad maint canolig / stiwdio, gyda dau o'r rheini yn teithio yn genedlaethol.

Enillodd y cwmni Wobr UK Theatre am Ragoriaeth o ran Teithio 2024, a chafodd y cwmni ei enwebu hefyd fel Cynhyrchydd y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Stage 2024.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Rhif cofrestru cwmni: 4784488